

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele. LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Sym : 07903328655
e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

-

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.30y.h. DDYDD LLUN, IONAWR 14eg, 2019, YN Y GANOLFAN GYMUNEDOL, LLANELIAN YN RHOS.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Hefin Williams; yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths a'r Cynghorwyr Bryn Jones; D.Gwyn Jones; Tudur W. Jones; Gwyndaf O.Roberts; John D.Roberts; Goronwy R.Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G. Lloyd.

3. YMDDIHEURIADAU - y Cynghorwyr Eifion Evans a Fiona Haf Jones.

4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol ar y ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. NI DDATGELWYD YR UN.

5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Rhagfyr 3ydd, 2018 yn Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos.

6. MATERION YN CODI
 - 1.18/14(v) Tyllau yn y ffordd rhwng croesffyrdd Garnedd a Nentydd. Mae GF32176 yn cyfeirio. Dywedodd y Cynghorydd Sir, Ifor Lloyd, fod yr holl drwsio ar rota, a'i fod yn gobeithio y byddai trwsio'r ffordd hon yn digwydd yn y dyfodol agos.
 - 2.18/14(i) Difrod i ddrws y bwth teleffon. PENDERFYNWYD gohirio tan fis Chwefror.
 - 5.18/6(i) Draen ffordd ar Ffordd Cilgwyn. GF 33158. Nid yw'r gwaith hwn fyth wedi ei wneud.
 - 11.18/14(ii) Cyflwr y llwybr troed o Lanelian i Fryn Elian, a adwaenir fel Ffordd Figin. Nid yw'r gwaith hwn wedi ei wneud.

7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -
 - 1.19/7(i) Derbyniwyd cerdyn Nadolig gan Darren Millar, AC. NODWYD hyn gyda diolch.

1.19/7(ii) Gohebiaeth gan CVSC ynglŷn â grantiau ar gyfer cynllun chwarae allan, a.y.y.b. NODWYD y llythyr hwn.

8. **CYLLID - PENDERFYNWYD** nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Ragfyr 20fed, 2018.

Cyfrif cymunedol£8178.97

Cyfrif busnes£5534.22

1.19/8(i) Mantolen fisol. 21. 11.18 hyd at 20.12.18 - **CYTUNWYD ARNI GAN BAWB.**

9. **TALIADAU A DDERBYNIWYD - NODWYD** y taliadau canlynol a dderbyniwyd.

1.19/9(i) Y Praesept£3000.00

1.19/9(ii) Llog y Banc£ 2.76

10. **TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD NODI A THALU**'r holl eitemau a restrir isod:-

i. 1.19/10(i) Cyflog y Clerc.....(DU).....£ 287.23

ii. 1.19/10(ii) HMRC...(DU)£ 71.81

iii. 1.19/10(iii) Cyfieithu (Hanner y gost)£ 15.00 - Siec 200025

11. **CEISIADAU AM GRANT - Dim.**

12. **MATERION SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

4.16/12(i) Adroddiadau ynglŷn â materion Archwiliad Ward. Dywedodd y Cyngorydd Lloyd ei fod yn dal i fynd ar ôl yr holl drwsiau angenrheidiol ar gyfer y ffyrdd a'r draeniau. Dywedwyd wrtho y byddai rhai o'r trwsiau'n cael eu gwneud yn syth. Dywedodd hefyd fod y gwaith ar y cais cynllunio yn Bay View Cottage wedi dechrau. Roedden nhw'n clirio'r safle ar gyfer adeiladu. Roedd disgwyl penderfynu ar y cais gan ddirprwyaeth, ond roedd yn obeithiol y byddid yn edrych ar gytundeb Adran 106. Roedd o hefyd wedi ffonio'r adran gynllunio gyda'i bryderon ynglŷn â draeniad ar y safle.

13. **MATERION CYNULLIAD CYMRU - Dim.**

14. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED

1.19/14(i) Roedd pryder sylweddol ynglŷn â diogelwch a chyflwr y bont yn Dolwen Lodge, ac a oedd yn addas ar gyfer ei phwrpas. Pan gaewyd yr A55 fe ddefnyddiwyd y ffordd gan lawer o drafnidiaeth drom ac roedd y bont yn fan bachu yn y ffordd. Roedd yr aelodau'n teimlo y dylid gwneud rhywbeth.

1.19/14(ii) Ar ran y Cyngor a'r Gymuned dymunodd y Cyngorydd Bryn Jones ddiolch i'r Cynghorwyr Hefin Williams ac Ifor Glyn Lloyd am y gwaith sylweddol yr oedden nhw wedi ei wneud i arddangos y goeden Nadolig. Roedd am ddiolch hefyd i'r Cyngorydd Gwyndaf O.Roberts am ei holl waith caled ar ran y Gymuned yn dyfrio't holl gynwysyddion blodau yn ystod yr haf.

15. UNRHYW FATER ARALL

1.19/15(i) Adolygiad o'r polisi cais am grant. CYTUNWYD ar hyn. Y Clerc i ddwyn ynghyd wybodaeth, ac i gynhyrchu polisi i'r aelodau i gytuno arno.

1.19/15(ii) Cyrsiau Un Llais Cymru. NODWYD hyn bryd hynny.

16. CYNLLUNIO - Dim.

17.MATERION ARCHWILIAD -

1.19/15(i) Apwyntio Archwiliwr Mewnol. PENDERFYNWYD apwyntio JDH Services o'r Wyddgrug fel Archwiliwr Mewnol ar gyfer 2018 / 2019.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe orffennodd y cyfarfod am 8.25y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....